Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Cyd-bwyllgor Archwilio** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys yr Heddlu** |
| **Dyddiad:** | **19 Mawrth 2018** |
| **Amser:** | **10:00 – 14:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Alasdair Kenwright (AMSK)<br>Mr Malcolm Macdonald (MM)<br>Mr Martin Evans (ME)<br>Mr Andre Morgan (AM) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (PS)<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Jonathan Maddock, Rheolwr Cleientiaid, TIAA (JM)<br>Mr Mark Swallow, Arlingclose<br>Mrs K Phillips, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (KP) (Eitem 19 ar yr agenda yn unig)<br>Mr Jason Blewitt, Rheolwr Archwilio (SAC)<br>Miss Caryl Bond, Swyddog Cymorth Sicrwydd |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mr Mark Collins, Prif Gwnstabl (PG)<br>Ms Vicky Davies, TIAA (VD) |
| **Datganiadau o Ddiddordeb:** | Dim. |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 6 RHAGFYR 2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w Symud Yn Ei Flaen Gan |
| **A32 2017/18** | **Rhoi adroddiad i'r Aelodau ar achosion o dorri data mewn 6 mis.** | **Yr Heddlu Mehefin/ Gorffennaf 2018** |
| **A34 2017/18** | **Yr aelodau i roi adborth i'r PS ynglŷn â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Drafft ar y Cyd.** | **Yr Aelodau** |

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan MM, a gwnaed cyflwyniadau oherwydd nifer yr aelodau newydd.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau ar ran y CHTh, y PG a Vicky Davies.

**A35 2017/18 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017 a materion yn codi.**

Holodd y CC pa un ai a fyddai modd newid teitl eitem 4 (a) ar yr agenda i Ymchwiliadau – Dyletswydd Gofal, AD a Systemau Ariannol, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod maes penodol yn cael ei ystyried.

Mewn perthynas ag A32 2017/18 o fewn y cofnodion, holodd AMSK pa un ai a oedd y sefydliad yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) sy'n dod i rym ym mis Mai.

Rhoddodd y PS ddiweddariad byr, gan ddweud bod prosesau mewn grym er mwyn gweithio'n raddol tuag at gydymffurfiaeth. Esboniodd y PS fod SCHTh wedi mynd i sesiwn ymwybyddiaeth GDPR Cymru gyfan yn ddiweddar gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac er bod llawer o waith i'w wneud o hyd, mae cynllun mewn grym ar gyfer gweithio tuag at gydymffurfiaeth lwyr.

Awgrymodd y PS y dylid cyflwyno adroddiad manylach i'r Pwyllgor mewn cyfarfod neu seminar yn y dyfodol ynghylch sefyllfa'r Heddlu o ran cydymffurfio â GDPR.

Roedd yr holl gamau gweithredu a nodwyd o fewn y cofnodion wedi'u cwblhau, ac roedd eitemau gofynnol ar yr agenda i'w trafod nes ymlaen.

**Penderfyniad: Yn amodol ar y diwygiad a nodwyd, derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2017 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.**

**A36 2017/18: Cynllun Archwilio Drafft Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018/19**

Cyflwynodd JB gynllun archwilio drafft Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018/19 gan esbonio ei fod yn nodi eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r ffioedd arfaethedig. Crynhodd JB y canfyddiadau allweddol o fewn yr adroddiad gan esbonio na fu unrhyw gyfyngiadau arnynt o ran eu gwaith a'u cyfrifoldebau unigol fel y nodir yn Atodiad 1 o'r ddogfen.

Esboniodd JB mai'r prif beryglon ar gyfer 2018/19 yw trechiadau rheolwyr, cyfrif am weithrediadau a reolir ar y cyd, trosglwyddo adnoddau ystadau, cau'r cyfrifon diwedd flwyddyn yn gynt, a threfniadau llywodraethu ariannol. Fel y nodir yn yr adroddiad, esboniodd JB y prosesau sydd mewn grym ar gyfer ymateb i'r peryglon hyn i'r Pwyllgor.

**A37 2017/18: Diweddariad Llafar ar y Cytundeb Archwilio Mewnol.**

Esboniodd y PSA i'r Pwyllgor y daw'r cytundeb cyfredol â TIAA i ben ar 23 Mehefin 2018. Y cyfnod cychwynnol ar gyfer y cytundeb oedd 3 blynedd, gyda'r dewis i'w estyn o 2 gyfnod pellach o 12 mis yr un.

Esboniodd y PSA bod cytundebau cyfredol Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019, ac ar ôl derbyn cyngor caffael strategol, ac o ystyried yr awydd a'r ymroddiad i symud ymlaen ar sail gydweithiol, cytunwyd i estyn y cytundeb cyfredol ar sail anghydymffurfio a fydd yn hwyluso proses dendro gydweithiol ac alinio

cytundebau â'r ddau heddlu arall wrth symud ymlaen. Bydd yr estyniad hwn yn cynnwys y 160 diwrnod a nodir yn y cynllun archwilio drafft.

**A38 2017/18: Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2018/19**

Crynhodd JM gynnwys y cynllun, gan gyfeirio at themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg, sef: Pwysau Cyllidebol, TGCh – Cyflwyno GDPR, y pwysau parhaus o'r sefyllfa ariannol a chyflwyno Datganiadau Rheoli'r Heddlu ar gyfer pob Heddlu o Ebrill 2018 a chydweithio – mwy o gydweithio ledled Cymru ac ar draws y sectorau cyhoeddus.

Holodd ME gwestiwn ynglŷn ag Atodiad A; Dadansoddiad Perygl GUARD. Dywedodd ei fod yn sylwi y bydd yn cael ei gynnwys nesaf o fewn cynllun 2019/20 ar gyfer seiberdroseddu, a holodd pa un ai a fyddai adolygiad yn cael ei gynnal cyn y dyddiad hwn. Esboniodd JM nad oedd unrhyw bryderon wedi'u nodi o fewn adolygiad 2017/18, felly teimlwyd bod dyddiad adolygu o 2019/20 yn briodol.

Holodd AM pam fod y Dadansoddiad Risg GUARD ar gyfer camerâu fideo a wisgir ar y corff yn isel, ond bod y radd risg fewnol yn cael ei hystyried yn uchel. Esboniodd JM fod hyn yn dangos bod eu systemau nhw'n hystyried y risg yn isel, ond mae'r heddlu'n nodi bod y pwnc yn uchel. Dywedodd y CC y byddai'r heddlu'n nodi'r thema hwn fel risg uchel gan ei fod yn flaenoriaeth ar gyfer yr heddlu ar hyn o bryd wrth i waith a phrosiectau gael eu cynnal yn fewnol.

Dywedodd MM mai un o argymhellion CIPFA yw y dylid cynnwys Datganiadau Rheoli'r Heddlu o fewn rhaglenni archwilio 2018/19 i adolygu'r hyn sydd wedi'i wneud er mwyn paratoi ar gyfer Datganiadau Rheoli'r Heddlu. Gan fod hwn yn ddarn mawr o waith sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth newydd, awgrymwyd y gellid ei drafod o safbwynt archwilio os oes angen. Awgrymodd MM na ddylid newid y rhaglen archwilio ar hyn o bryd, ond y gellid ychwanegu adolygiad o Ddatganiadau Rheoli'r Heddlu i'r cynllun os oes angen.

Cadarnhaodd y PS y byddai cyflwyniad yn cael ei roi ar Ddatganiadau Rheoli'r Heddlu yn seminar y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Mehefin.

Dywedodd y PSA ei fod wedi'i nodi mewn sgyrsiau diweddar gyda'r CC bod AHEM yn mynd i Bwyllgorau Archwilio mewnol eraill, a holodd pa un ai a fyddai'n werth ystyried gwahodd AHEM i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio weithiau. Cytunodd MM y byddai hyn yn weithredu cadarnhaol oherwydd yr oblygiadau ar y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol am wybodaeth sydd yn rhaid dod o AHEM. Byddai'n fuddiol derbyn gwybodaeth ynghylch sut mae eu trafodaethau'n cydberthyn o AHEM ar faterion Llywodraethu Corfforaethol.

Dywedodd MM fod angen adolygu'r cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor ym mis Mawrth, fodd bynnag, gan y disgwylir canllawiau CIPFA mewn perthynas â phwyllgorau archwilio a rôl Prif Swyddogion Ariannol, ystyriwyd ei fod yn briodol gohirio adolygu'r cylch gorchwyl hyd nes y'u derbynnir.

**Cam Gweithredu: Adolygu'r cylch gorchwyl ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ar Bwyllgorau Archwilio a dyletswyddau'r PSA gael eu cyhoeddi.**

**Cam Gweithredu: Trafod gwahodd AHEM i rai cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Archwilio penodol fel rhan o'r adolygiad o'r cylch gorchwyl.**

**A39: 2017/18 Strategaeth Rheoli Trysorlys a chyflwyniad gan Arlingclose.**

Cynghorodd y PSA yr aelodau bod disgwyl i'r Comisiynydd gymeradwyo'r strategaeth rheoli trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal â hyn, mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol hefyd yn mynnu bod y Comisiynydd yn cymeradwyo strategaeth fuddsoddi.

Er mwyn cynorthwyo ystyriaeth yr aelodau o'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, rhoddodd MS o Arlingclose, Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys, gyflwyniad, gan esbonio'r elfennau allweddol yr oedd angen eu hystyried.

Diolchodd MM i'r PSA am ei gyflwyniad ac am waith Arlingclose. Ategodd yr aelodau pwyllgor ei fod yn ddefnyddiol iawn derbyn y sicrwydd hwn.

**Penderfyniad: Argymhellodd y Pwyllgor bod y CHTh yn cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Polisi Buddsoddi.**

Roedd gan AM gwestiwn ynglŷn â'r geiriad ar dudalen 27 mewn perthynas â gwyngalchu arian: "Os oes gan unrhyw aelod staff sy'n gysylltiedig â Rheoli Trysorlys amheuon ynghylch gwyngalchu arian, dylent ddwyn hyn i sylw'r PSA, PSA y PG a'r CHTh." Gofynnodd AM am i'r geiriad gael ei newid i "rhaid dwyn". Cytunodd pawb i hyn.

**Cam gweithredu: Newid "dylent ddwyn" i "rhaid dwyn" yn yr adran ar wyngalchu arian o fewn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.**

Gadawodd MS y cyfarfod.

**A40 2017/18 Adroddiadau'r archwilwyr mewnol**

Mae wyth adroddiad wedi'u cwblhau ers y cyfarfod pwyllgor diwethaf, felly maen nhw wedi'u dwyn i sylw'r pwyllgor ar gyfer ystyriaeth.

**a) Cyfathrebu Corfforaethol**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol, gyda 3 argymhelliad Blaenoriaeth 2. Mae'r argymhelliad cyntaf yn cyfeirio at ganllawiau a strategaethau unigol a nodwyd fel dogfennaeth ategol i'r Strategaeth Cyfathrebu Strategol, sydd angen eu cwblhau a'u cymeradwyo gan y Grŵp Prif Swyddogion. Esboniodd JM fod hyn wedi'i gytuno a'i fod ar waith. Mae'r ail argymhelliad yn ymwneud â'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn darparu datganiadau i'r wasg/cyfryngau i'r CHTh a'r angen ar gyfer adolygiad er mwyn sicrhau amhleidioldeb. Esboniodd JM fod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddrafftio yn ddiweddar er mwyn cynorthwyo â'r sefyllfa hon. Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud â'r angen i

swyddogion arwyddo a dychwelyd eu ffurflenni Cytundeb Cyfryngau Cymdeithasol. Ar adeg yr adolygiad, roedd 31 swyddog wedi sefydlu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol heb gymorth y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i dderbyn ac mae camau gweithredu ar waith.

**b) Rheoli Cyllidebol**

Canlyniad: Sicrwydd Sylweddol heb unrhyw argymhellion. Esboniodd JM fod y mater hwn wedi derbyn Sicrwydd Sylweddol ddwy flynedd yn ôl hefyd, felly mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol cyson.

Diolchodd MM i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r broses. Dywedodd y CC y byddai'n rhoi gwybod i'r tîm am yr adborth cadarnhaol hwn a'r ganmoliaeth.

**c) Credydwyr**

Canlyniad: Sicrwydd Sylweddol, gydag un argymhelliad blaenoriaeth 3 mewn perthynas â gweithdrefnau. Dywedodd JM fod sicrwydd cyfyngedig wedi'i dderbyn yr adeg hon llynedd, felly mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud.

Diolchodd MM i'r tîm am y cynnydd sydd wedi'i wneud, a gofynnodd i'r CC sôn wrth y tîm am yr adborth cadarnhaol hwn.

**ch) Cyfriflyfr Cyffredinol**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol. Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer darparu llwybr archwilio effeithiol ar gyfer data a nodwyd yn y cyfriflyfr cyffredinol a phriodoldeb yr adroddiadau a gynhyrchwyd. Nodwyd un argymhelliad blaenoriaeth 2 a dau argymhelliad arferol. Esboniodd JM fod yr argymhelliad blaenoriaeth 2 yn ymwneud â chysoniadau'n cael eu cynnal a'u cwblhau'n amserol, ond esboniodd fod hyn yn ymwneud â phrinder staff o fewn yr adran. Roedd y mater hwn o ran prinder staff yn cael ei drin, felly'r gobaith yw y bydd y broblem hon yn cael ei datrys.

Awgrymodd y PSA ei bod hi a'r CC yn cwrdd bob wythnos ac yn asesu unrhyw beryglon mewn perthynas â materion posibl o ran adnoddau er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i reoli a lliniaru unrhyw beryglon. Esboniodd y CC hefyd eu bod nhw'n edrych ar gynyddu nifer y gweithwyr o fewn yr adran gyllid a fydd hefyd yn cynyddu eu cadernid.

**d) Dyledwyr**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol, gyda phedwar argymhelliad blaenoriaeth 2 a thri argymhelliad blaenoriaeth 3. Roedd y prif bryder yn ymwneud â materion amseroldeb.

**dd) Cofnodi Troseddau**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol, gyda thri argymhelliad blaenoriaeth 2, dau argymhelliad blaenoriaeth 3 ac 1 argymhelliad effeithlonrwydd gweithredol. Aeth JM trwy bob un o'r argymhellion gan esbonio'r prosesau sydd mewn grym i fodloni pob argymhelliad.

Holodd AK ynglŷn â'r materion staffio y cyfeiriwyd atynt o fewn yr adroddiad a gofynnodd pa un ai a oes camau mewn grym i liniaru'r peryglon. Roedd AK wedi sylwi ar sgôr uchel o ran cofnodi troseddau o fewn y Cofrestri Risg a holodd pa un ai a yw'r maes hwn yn derbyn sylw digonol. Dywedodd MM fod y maes hwn yn derbyn sylw trwy ei gyfarfodydd ag AHEM, ond mae'n faes pryder y mae angen tynnu sylw ato. Dywedodd MM y byddai'n ddefnyddiol ystyried hyn ymhellach wrth adolygu'r Gofrestr Risg.

Tynnodd y CC sylw at y ffaith bod archwiliad wedi'i gynnal gan Dditectif Arolygydd a oedd wedi adrodd am ganfyddiadau trwy'r Grŵp Rheoli Perfformiad ym mis Ionawr. Roedd materion a nodwyd yn cynnwys cofnodi troseddau o fewn troseddau gyda phob trosedd angen ei chofnodi ar wahân a'r dehongliad o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn drosedd gan swyddogion unigol. Esboniodd y CC bod oblygiadau o ran hyfforddi y bydd angen eu hystyried. Cydnabu'r CC fod hyn yn faes perygl ar gyfer yr heddlu, ond yn faes sy'n derbyn llawer o sylw.

**e) Gwrth-dwyll**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol, gyda phedwar argymhelliad blaenoriaeth 2 a thri argymhelliad arferol blaenoriaeth 3. Roedd yr argymhellion yn cynnwys y polisi cyflogaeth eilaidd a Diddordeb Busnes sydd i'w adolygu'n flynyddol gan fod y polisi wedi'i adolygu diwethaf yn 2015. Hefyd, awgrymwyd y dylid adolygu'r canllawiau ynghylch Anrhegion a Lletygarwch gan nad yw wedi'i adolygu ers 2013.

Esboniodd JM fod un o'r materion gweithredol a nodwyd yn cynnwys amseroldeb o ran llofnodi datganiadau/ceisiadau lletygarwch ac anrhegion. Bydd hyn yn cael ei adolygu er mwyn gweld pa un ai a ellir cyflymu'r broses drwy gael yr Adran Safonau Proffesiynol i lofnodi rhai datganiadau yn hytrach na bod pob un yn cael ei lofnodi gan y PG. Soniodd MM am bwysigrwydd cael meini prawf/canllawiau penodol ynghylch lefel y datganiadau y gall yr Adran Safonau Proffesiynol eu llofnodi, a phryd y mae angen llofnod y PG. Awgrymodd AK y gallai'r gofrestr Anrhegion a Lletygarwch gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn iddynt hap samplo'r datganiadau sy'n cael eu cymeradwyo ac ati.

**f) Safonau'r Gymraeg**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol, gyda dau argymhelliad blaenoriaeth 2. Bydd gwaith yn parhau gyda'r heddlu o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl safonau statudol o ran y Gymraeg. Esboniodd y PS fod angen i SCHTh gwblhau 2 safon sy'n ymwneud â gweithredu'r system recriwtio a'r dewis iaith yn y lifft yn y Pencadlys. Mae'r ddwy safon yn cael eu rhannu gyda'r heddlu ac mae cynllun yn cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â hyn. Dywedodd y PS fod y CHTh wedi cwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar, a oedd yn fodlon â chynnydd yr Heddlu a SCHTh.

Nododd y Pwyllgor eu bod nhw'n ddiolchgar am yr holl waith caled sydd wedi'i gyflawni er mwyn cyrraedd y lefel hon, gan gynnwys staff, swyddogion a'r tîm cyfieithu.

**Cam Gweithredu: Diolch i’r tîm cyfieithu am eu gwaith caled o ran helpu’r Heddlu a SCHTh i gyflawni’r lefel gydymffurfiaeth gyfredol â Safonau’r Gymraeg.**

**A41 2017/18: Ystyried y Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer Datganiadau Blynyddol 2017/18.**

Dywedodd y PSA ei fod yn cael ei ystyried yn briodol adrodd am y polisïau cyfrifyddu drafft a’u hystyried cyn ystyried y datganiad o gyfrifon, ar gais y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Esboniodd y PSA y byddai CIPFA yn cynhyrchu rhestr wirio flynyddol o newidiadau a gofynion newydd. Does dim angen unrhyw newidiadau ar gyfer cyfrifon 17/18, ond bydd rhai newidiadau a allai effeithio ar gyfrifon 18/19.

Gan hynny, mae’r polisïau drafft yn parhau'r un fath â’r rhai a weithredwyd ar gyfer cyfrifon 16/17 yn amodol ar rai diwygiadau mân.

**Penderfyniad: Argymell fod y CHTh yn cymeradwyo’r Polisïau Cyfrifyddu ar gyfer Datganiadau Blynyddol 2017/18.**

**A42 2017/18: Ystyried y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn**

Esboniodd y PSA fod Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn wrth gyfrif eu gofyniad cyllideb a bod y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol yn nodi y dylai’r Comisiynydd sefydlu polisi ar gronfeydd wrth gefn. Mae’r Swyddfa Gartref hefyd wedi cyhoeddi canllawiau penodol yn ddiweddar ar gronfeydd wrth gefn yr heddlu sy’n ceisio gwell tryloywder er mwyn arddangos cynlluniau clir ar gyfer eu defnyddio.

Dywedodd y PSA fod y Comisiynydd wedi arddangos cynllun clir ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn wrth osod y praesept ar gyfer 18/19 a ffurfio’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn cefnogi cyflwyno ei Gynllun Heddlu a Throseddu trwy gyllidebau cyfalaf a refeniw wrth symud ymlaen.

Yn amodol ar fân ddiwygiadau, cytunwyd i argymell cymeradwyo’r polisi.

**Penderfyniad: Argymell fod y CHTh yn cymeradwyo’r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn.**

**A43 2017/18: Adolygu’r Strategaeth Gyfalaf.**

Esboniodd y PSA fod y Strategaeth Gyfalaf yn gosod yr egwyddorion sy’n tanategu blaengynllun y Comisiynydd, ac yn arf hollbwysig ar gyfer cynnal cynllunio a gweithio corfforaethol ar draws y ddwy gorfforaeth undyn. Mae buddsoddi cyfalaf strategol yn

hollbwysig ar gyfer cyflawni cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu, cefnogi cyflenwi gwasanaeth, rhesymoli a gwella cyfleusterau a gwella technoleg er mwyn gwella cynhyrchiant a pherfformiad.

Esboniodd y PSA y bu gostyngiadau sylweddol i gyllid cyfalaf craidd yn ystod blynyddoedd diweddar, fel y bydd yr aelodau'n gwybod. Bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei chefnogi gan ddefnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd cyfalaf wrth gefn dros y ddwy flynedd nesaf, a benthyca cynghorus gyda phroffil wedi'i gynllunio o gyfraniadau refeniw i gyfalaf wrth symud ymlaen.

Esboniodd y PSA hefyd ei bod hi'n bosibl fod mater amseru a threfn gan fod penderfyniadau o fewn y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn yn hanfodol o ran gosod y cynllun cynllunio ariannol tymor canolig, ac wrth symud ymlaen, byddai'n werth mewnosod y polisi cronfeydd wrth gefn a'r polisi cyfalaf o fewn y cynllun ariannol tymor canolig er mwyn gwneud y ddogfen yn fwy cynhwysfawr.

**A44 2017/18: Y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd ar gyfer 2018/19**

Esboniodd y PS mai fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r fframwaith yw hwn, yn dilyn adborth gan y Pwyllgor. Rhoddodd y PS ddogfen grynodeb ychwanegol i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys cwestiynau a ofynnir yn aml. Cynigir ei bod yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r fframwaith. Mae'r ddogfen ychwanegol hon yn nodi'n glir pryd y dylid defnyddio'r Fframwaith a pham, ac mae'n nodi'r elfennau allweddol o fewn y fframwaith a ble y gellir dod o hyd iddynt. Mae'r fframwaith wedi'i ystyried mewn cyfarfod o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu gan y PG a'r CHTh, a bydd yn barod i'w gyhoeddi i'r sefydliad ehangach yn y dyfodol agos iawn.

Gofynnodd AK am i'r geiriad ar dudalen 64 mewn perthynas â gwyngalchu arian gael ei newid o "dylai" i "rhaid" er mwyn gwneud y datganiad yn fwy pendant. Nododd MM fod camgymeriad teipio ar waelod tudalen 5 hefyd, a bydd angen diwygio hyn.

**Cam Gweithredu: Diwygio'r fframwaith Llywodraethu Corfforaethol fel y trafodwyd uchod.**

**A45 2017/18: Diweddariad ynglŷn â Datganiad Rheoli'r Heddlu a Materion AHEM**

Esboniodd y CC fod adroddiad Effeithlonrwydd PEEL wedi'i gyhoeddi ar 9 Tachwedd ac wedi derbyn gradd 'Angen Gwella'. Mae pob cam gweithredu o fewn yr adroddiad hwn ar waith ac yn cael eu monitro gan y grŵp AHEM. Cyhoeddwyd adroddiad cyfreithlondeb PEEL ar gyfer 2017 ar 12 Rhagfyr ac fe dderbyniodd radd 'Da', sy'n well na'r radd a roddwyd yn 2016. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr archwiliad ar y cyd o ddalfeydd ar 6

Mawrth. Mae'r argymhellion o'r adroddiad hwn wedi'u cipio ac mae cynllun gweithredu wedi'i lunio gan Brif Arolygydd dalfeydd.

Esboniodd y CC y byddai adroddiad effeithlonrwydd PEEL yn cael ei gyhoeddi ar 26 Mawrth 2018 a bod yr Heddlu'n gobeithio am welliant. Hefyd, esboniodd y CC eu bod nhw wedi cael archwiliad gan Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru ac AHEMGTA yn erbyn eu darpariaeth gwrthderfysgaeth o 28 – 31 Ionawr a bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018. Mae'r holl argymhellion o fewn yr adroddiadau'n cael eu goruchwylio gan grŵp llywodraethu AHEM. Esboniodd MM ei fod yn eistedd ar y grŵp ar hyn o bryd a'i fod wedi'i galonogi gan yr ymagwedd a gymerir. Esboniodd y CC y byddai Datganiad Rheoli'r Heddlu'n cael ei gyhoeddi ym mis Mai, a bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn seminar y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Mehefin.

**Cam Gweithredu: Trafod Datganiad Rheoli'r Heddlu yn y seminar ym mis Mehefin.**

Esboniodd y CC fod Heddlu Dyfed-Powys yn un o 11 gwasanaeth heddlu sydd wedi'u dewis i gymryd rhan mewn archwiliad Twyll, a fydd yn cychwyn cyn hir ac yn para tan fis Mehefin 2018. Nid yw'r Heddlu wedi derbyn archwiliad ar gywirdeb data Trosedd eto. Gan hynny, disgwylir hyn rhywbryd yn ystod y 12 mis nesaf. Esboniwyd bod Swyddog Cyswllt Heddlu newydd wedi'i benodi gan y tîm AHEM a fyddai'n brif bwynt cyswllt ar gyfer pob heddlu yng Nghymru.

## A46 2017/18: Diwrnodau Datblygu Cyd-bwyllgor Archwilio Cymru Gyfan

Rhoddodd MM drosolwg byr o'r diwrnod Datblygu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio yng Nghymru ar 1 Chwefror 2018. Soniodd MM am brif bwyntiau'r dydd fel y nodir yn ei adroddiad o'r diwrnod. Roedd MM am nodi mai un o'r pwyntiau a godwyd yn ystod y dydd oedd y ffaith nad oes gan AHEM gyfrifoldeb dros y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru, felly mae pryder y gallai hyn fod yn ddryslyd pan fod AHEM yn cael ei adnabod yn awr fel AHEMGTA. Mae angen esboniad o fewn adroddiadau i ddangos yn glir nad yw'r rôl ychwanegol hon yn berthnasol i Gymru. Esboniodd MM y byddai'r dryswch hwn ynghylch teitl AHEM yn cael ei godi gydag AHEM gan gynrychiolwyr CIPFA. Dywedodd MM ei bod yn gynhadledd ddefnyddiol, fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo y byddai'n fwy defnyddiol cael gwybodaeth ynghylch sut y mae newidiadau cenedlaethol sy'n digwydd o fewn y Gwasanaeth Heddlu'n dod i'r Pwyllgor er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r datblygiadau a'u heffaith bosibl.

## A47 2017/18: Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19

Croesawodd y PSA KP i'r cyfarfod ac esboniodd ei fod yn ofyniad cyfreithiol i'r CHTh a'r PG gynhyrchu datganiadau Llywodraethu Blynyddol. Esboniodd y PSA fod CIPFA wedi cynnal ymarfer cymharu a chyferbynnu yn ddiweddar yn seiliedig ar sampl o

Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 16/17 ac esboniodd fod nifer o heddluoedd yn symud tuag at yr ymagwedd o gael un Datganiad Llywodraethu blynyddol rhwng yr Heddlu a SCHTh. O'r herwydd, roedd datganiad Llywodraethu Corfforaethol drafft wedi'i baratoi, a chroesawyd barn y Pwyllgor ar y ddogfen a dull gweithredu cytûn.

Mynegodd AM ei fod o blaid cael un ddogfen oherwydd, er bod yr Heddlu a SCHTh yn annibynnol ar ei gilydd, mae'n ddefnyddiol dangos bod ganddynt un strategaeth gorfforol ac un drefn lywodraethol. Cytunodd ME fod cael un ddogfen yn portreadu neges gref a chyson. Cytunodd y Pwyllgor y byddai cael un ddogfen ar y cyd yn ddatblygiad cadarnhaol.

Nododd MM fod angen cysondeb o ran y drefn y cyfeirir at y CHTh a'r PG o fewn y ddogfen a bod angen eglurhad o ran pa un ai a yw ochr SCHTh yn cael ei chynnwys wrth gyfeirio at Heddlu Dyfed-Powys. Â hithau'n ddogfen ar y cyd, mae angen iddi fod yn glir pan gyfeirir at yr Heddlu a SCHTh. Pe bai'r ddogfen yn cyfeirio at Wasanaeth Heddlu Dyfed-Powys, dywedodd y PS mai hwn fyddai'r term ar gyfer cwmpasu'r Heddlu a SCHTh. Awgrymodd y PSA y dylid cynnwys diffiniad o hyn ar ddechrau'r ddogfen er mwyn gwneud hyn yn glir i'r darllenydd.

Ar dudalen 14 o fewn y tabl ar gyfer 'Camau gweithredu a materion Llywodraethu arwyddocaol', holodd MM pam ei fod yn cynnwys y perchennog a'r amserlen ar gyfer pob cam gweithredu gan y gallai hyn wneud y ddogfen ychydig rhy gymhleth. Esboniodd KP fod y syniad hwn wedi dod o argymhelliad o fewn adroddiad amlygu CIPFA, sef y dylid cyflawni camau gweithredu allweddol dros gyfnod o amser, ac y dylid nodi'r perchennog a'r amserlen yn glir. Fodd bynnag, dywedodd KP y gellid cael gwared ar hyn pe bai'r pwyllgor yn teimlo y byddai'n fwy priodol cofnodi'r wybodaeth hon o fewn cynllun gweithredu ar wahân i'r ddogfen hon. Awgrymodd y PSA y dylid ymchwilio i'r hyn y mae pobl eraill yn gwneud mewn perthynas â'r wybodaeth hon, a gweld beth fedrwn ddod o hyd iddo o ran arfer da.

Yn ogystal, awgrymodd y PS y dylid gofyn i'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol drafod hyn a gweld sut maen nhw'n teimlo mewn perthynas â'r ffordd orau o symud y mater hwn ymlaen. Gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw adborth ychwanegol at Kerrie Phillips er mwyn gorffen y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Cam Gweithredu: Trafod y ffordd y mae'r tabl 'Materion Llywodraethu Arwyddocaol' yn y ddogfen yn cael ei arddangos o fewn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a chynnal gwaith ymchwil er mwyn adnabod arfer gorau gyda meysydd eraill.**

**A48 2017/18: Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gyfer 2017/18**

Rhoddodd y PS esboniad byr o gynnwys cyfredol yr adroddiad ac esboniodd eu bod wedi gadael y blaenoriaethau ar gyfer 18/19 i'w trafod yng nghyfarfod heddiw. Gofynnodd y

PS i'r pwyllgor am eu barn ynglŷn ag unrhyw gynnwys y dylid cynnwys. Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn fodlon â diwyg a chynllun y ddogfen. O ran blaenoriaethau 18/19, nododd MM y byddai angen adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor, newidiadau i'r cod Rheoli Trysorlys a datganiadau Rheoli'r Heddlu.

Gofynnodd MM i'r aelodau pa un ai a fyddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor edrych ar fwy o agweddau o ran gwerth am arian, ac edrych ymhellach i ble mae arian yr Heddlu'n mynd ac ati. Dywedodd AK ei bod mewn perygl o fod yn rhaglen hir drwy edrych ar werth am arian. Nododd AK mai rôl y pwyllgor yw sicrhau fod trefniadau mewn grym i sicrhau'r gwerth gorau am arian yn hytrach nag edrych ar y manylion, felly mae'n bosibl mai ystyried y cylch gorchwyl yn gyntaf fyddai orau a gweld beth ddylai gael ei ystyried o dan hyn ac i ba raddau.

Yn ogystal, dywedodd y PSA y byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n rhoi cyflwyniad yn ystod seminar y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Mehefin ynglŷn â rôl eu swyddfa ac unrhyw uchafbwyntiau a chyngor ar gyfer y pwyllgor o ran eu hadolygiad o'r datganiad o gyfrifon.

Dywedodd y PS y gallai GDPR fod yn flaenoriaeth arall i'w chynnwys o fewn yr adroddiad. Cytunodd y pwyllgor fod hon yn agwedd bwysig ar gyfer eleni a dylid ei nodi fel blaenoriaeth.

Dywedodd y PS fod croeso i Aelodau anfon e-bost ati gydag unrhyw sylwadau ac awgrymiadau ychwanegol cyn y Pasg os ydynt eisiau ychwanegu unrhyw beth arall at yr adroddiad blynyddol.

**A49 2017/18: Cofrestri Risg yr Heddlu a SCHTh**

Mynegodd AM bryder mewn perthynas â'r perygl sy'n gysylltiedig â'r oedi o ran gweithredu meddalwedd ar gyfer gwiriadau cefndir arfau saethu awtomatig ar gyfeiriadau a chyflwyno deddfwriaeth/darpariaethau newydd mewn perthynas â mechnïaeth cyn cyhuddo. Mewn perthynas â'r feddalwedd arfau saethu, dywedodd y CC fod camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith er mwyn lliniaru'r peryglon, gyda'r ystafell reoli'n gwirio'r system arfau saethu'n uniongyrchol i weld pa un ai a oes gan unigolion arf saethu yn eu heiddo tra'u bod nhw'n aros i'r broblem o ran y feddalwedd, sy'n broblem yn genedlaethol, i gael ei datrys.

Mynegodd AM bryder mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer datrys y broblem hon gan fod rhybuddio swyddogion ymlaen llaw y gallai arf saethu fod yn bresennol cyn iddynt fynd mewn i eiddo'n hollbwysig.

Mewn perthynas â statws risg y newid o ran deddfwriaeth ynghylch mechnïaeth cyn cyhuddo, dywedodd y CC ei fod yn credu bod angen diweddaru hyn. Dywedodd y CC fod problem yn gynnar yn 2017 pan ddaeth y ddeddfwriaeth i rym gyntaf, ond ei fod yn cael yr argraff fod hyn yn gweithredu mewn ffordd well o lawer yn awr a'i bod hi'n bosibl fod angen adolygu'r coch oherwydd gallai hyn fod wedi gwella.

Dywedodd MM fod camau gweithredu wedi'u cymryd, felly byddant yn aros tan yr adolygiad nesaf i weld y gwelliant.

**A50 2017/18: Cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2018**

Dywedodd MM ei fod yn mynd i'r cyfarfodydd hyn ar hyn o bryd, fodd bynnag, os oes unrhyw un arall eisiau mynd yn ei le, neu fynd gydag ef, dylai roi gwybod i CM.

Penderfynwyd trafod presenoldeb y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol fel rhan o'r adolygiad o gylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio.

**Penderfyniad: Trafod presenoldeb y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol fel rhan o'r adolygiad o gylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio.**

**Unrhyw Fusnes Arall**

Doedd dim busnes arall i'w drafod.

Diolchodd MM i bawb am ddod i'r cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 14:00 awr**

**Dyddiad y**

**cyfarfod nesaf: 24 Gorffennaf 2018**

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 19 MAWRTH 2018 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | |
| **D35 2017/18** | **Yn amodol ar y diwygiad a nodwyd, cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2017 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.** | **Cwblhawyd** |
| **D38 2017/18** | **Adolygu'r cylch gorchwyl ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ar Bwyllgorau Archwilio a dyletswyddau'r PSA gael eu cyhoeddi.** | **Ar waith** |
| **D38 2017/18** | **Trafod gwahodd AHEM i rai cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Archwilio penodol fel rhan o'r adolygiad o'r cylch gorchwyl.** | **Cwblhawyd** |
| **D39 2017/18** | **Argymhellodd y Pwyllgor bod y CHTh yn cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Polisi Buddsoddi.** | **Cwblhawyd** |
| **D40 2017/18** | **Diolch i'r tîm cyfieithu am eu gwaith caled o ran helpu'r Heddlu a SCHTh i gyflawni'r lefel gydymffurfiaeth gyfredol â Safonau'r Gymraeg.** | **Cwblhawyd** |
| **D41 2017/18** | **Argymell fod y CHTh yn cymeradwyo'r Polisïau Cyfrifyddu ar gyfer Datganiadau Blynyddol 2017/18.** | **Cwblhawyd** |
| **D42 2017/18** | **Argymell fod y CHTh yn cymeradwyo'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn.** | **Cwblhawyd** |
| **D46 2017/18** | **Nodwyd adborth o ddiwrnodau datblygu'r Cyd-bwyllgor Archwilio.** | **Cwblhawyd** |
| **D50 2017/18** | **Trafod presenoldeb y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol fel rhan o'r adolygiad o gylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio.** | **Ar waith** |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 19 MAWRTH 2018 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w Symud Yn Ei Flaen Gan |
| **A38 2017/18** | **Adolygu'r cylch gorchwyl ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ar Bwyllgorau Archwilio a dyletswyddau'r PSA gael eu cyhoeddi.** | **SCHTh** |
| **A38 2017/18** | **Trafod gwahodd AHEM i rai cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Archwilio penodol fel rhan o'r adolygiad o'r cylch gorchwyl.** | **SCHTh** |
| **A39 2017/18** | **Newid "dylent ddwyn" i "rhaid dwyn" yn yr adran ar wyngalchu arian o fewn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.** | **PSA** |
| **A40 2017/18** | **Diolch i'r tîm cyfieithu am eu gwaith caled o ran helpu'r Heddlu a SCHTh i gyflawni'r lefel gydymffurfiaeth gyfredol â Safonau'r Gymraeg.** | **SCHTh a'r Heddlu** |
| **A44 2017/18** | **Diwygio'r fframwaith Llywodraethu Corfforaethol fel y trafodwyd uchod.** | **PS** |
| **A45 2017/18** | **Trafod Datganiad Rheoli'r Heddlu yn y seminar ym mis Mehefin.** | **SCHTh** |
| **A47 2017/18** | **Trafod y ffordd y mae'r tabl 'Materion Llywodraethu Arwyddocaol' yn y ddogfen yn cael ei arddangos o fewn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a chynnal gwaith ymchwil er mwyn adnabod arfer gorau gyda meysydd eraill.** | **Yr Heddlu** |